

# Arlunydd, Dylunydd, Gwneuthurwr

# Briff Aseiniad Prosiect yr Haf

Cod Modiwl

Teitl y Modiwl

Prosiect Cyn  
Cyrraedd

Aseiniad Prosiect yr Haf

Blwyddyn  
Academaidd

Semester

2023/24

Cyn-semester/tymor un

E-bost Arweinydd y Prosiect

jpigott@cardiffmet.ac.uk

## Manylion Aseu

Teitl y prosiect

Tal.

Pwysoliqd

YN YR AWYR

Dd/B

Dd/B

Cyd-destun: **Tasg Gwneuthurwr yr Haf / Wythnos Sefydlu:**

## Briff:

# YN YR AWYR: Ffurf a Hediad

Ar gyfer eich prosiect haf hoffem i chi roi cynnig ar greu gwrthrych syml a all hedfan neu symud yn ddestlus drwy'r awyr gan ddefnyddio grym syml yr awel. Dyma her ddiddorol i Wneuthurwr oherwydd gallech ddewis canolbwyntio ar y swyddogaeth hedfan neu agwedd addurniadol pethau wrth hedfan. Gallech hefyd ddefnyddio eich gwrthrych hedfan i gyfleu neges neu archwilio syniad neu drosiad yn ymwneud â themâu ysgafnder, disgyrchiant, aer, llygredd aer, cerrynt y gwynt, symudiad neu adar ymhlith pethau eraill.

Fel man cychwyn, gallai edrych ar ganllawiau creu barcud syml – mae digonedd ar gael ar-lein ar gyfer pob math gwahanol gan gynnwys barcutiaid blwch, barcutiaid sled, barcutiaid diemwnt ac ati. Gallai mannau cychwyn eraill gynnwys balŵns, sanau gwynt, fflagiau, gleiderau, melinau gwynt a cherfluniau gardd addurnol. Sylwch – ni chewch ddefnyddio tân i greu balŵn aer poeth na llusern Tsieineaidd ar y campws!!

Ystyriwch pa ddeunyddiau a thechnegau y gallech eu defnyddio - traddodiadol, naturiol, uwch-dechnoleg, wedi'u hailgylchu, wedi'u canfod, parod, gwnaed â llaw, bregus, gwydn... ac ati.

Ni fydd y ddarn hwn o waith yn cael ei asesu'n ffurfiol, byddwn yn hedfan y gwrthrychau yn ystod yr wythnos sefydlu ac fel grŵp byddwn yn ystyried cystadleuwyr ar gyfer y categorïau canlynol:

- Hediad fwyaf effeithlon
- Ceinder a harddwch mwayf wrth symud
- Cysyniad neu neges gryfaf

## Pethau i'w cyflawni:

- Rhaid i'ch cyflwyniad prosiect fod yn rhywbeth sy'n hedfan neu'n symud yn yr awyr
- Dewch â'r prosiect gyda chi ar gyfer dechrau'r Wythnos Groeso ddydd Llun 18 Medi

## Cyflwyniad

Os oes angen unrhyw gymorth neu gyngor arnoch ar sut i gwblhau'r dasg hon, anfonwch e-bost at ein tîm gweinyddol ysgol yn nodi enw'r cwrs yr ydych ar fin ymuno ag ef a'r cwestiynau yr hoffech eu gofyn i'r cyfeiriad e-bost canlynol:

[csadadmin@cardiffmet.ac.uk](mailto:csadadmin@cardiffmet.ac.uk)

# Nodiadau:

Gallwch ddefnyddio'r dudalen wag hon i wneud eich nodiadau eich hun:

**CARDIFF**  
SCHOOL *of* ART & DESIGN